Atodiad B: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy'n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG

Swyddog Arweiniol: Lisa Howell.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Andrea Richards.

Maes Gwasanaeth: Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 29 Tachwedd 2024

1.a) **Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?**

Strategaeth/Cynllun	Ail-fodelu neu Gau Gwasanaeth	Polisi/Gweithdrefn	Arfer	Gwybodaeth/Datganiad Safbwynt
X				

1.b) **Beth yw enw'r cynnig?**

Y cynnig yw cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr.

1.c) **Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.**

Y cynnig yw cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer darpariaeth ôl-16 i osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr. Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, fyddai disgyblion blwyddyn 12 newydd ddim yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ym mis Medi 2025.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol:
    - Cyflwyno, neu derfynu, darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol.

1.d) **Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.**

Mae pwerau i Gynghorau ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu llywodraethu gan:

- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).

Rhaid i gynghorau, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018) a rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.

1.e) **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:**

- Defnyddwyr y Gwasanaeth: X
- Gweithwyr: X
- Y Gymuned Ehangach: X

ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO: A OES ANGEN ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

NODWEDD WARCHODEDIG	**A FYDD Y CYNNIG YN CAEL UNRHYW EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEGYDDOL NEU NIWTRAL?**	**RHOWCH FANYLION YR EFFAITH**	**PA DYSTIOLAETH SYDD WEDI'I DEFNYDDIO I ATEGU'R SAFBWYNT YMA?**
OEDRAN:	Cadarnhaol	**<u>Pobl Ifainc</u> (Disgyblion ysgol)** Yn ôl data CYBLD, ym mis Ionawr 2024, roedd 899 o ddisgyblion oed ysgol statudol ac 89 o ddisgyblion y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Mae'r cynnig ôl-16 presennol yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'i gyfyngu ac yn aneffeithlon oherwydd maint dosbarthiadau bach. Nid yw'n rhoi'r profiad gorau posibl o addysg chweched dosbarth i ddisgyblion.	**<u>Pobl Ifainc</u> (Disgyblion Ysgol)** Yn 2023/24: • Cafodd 9 cwrs eu cynnal ar gyfer llai na 5 disgybl. Mae hyn yn aneffeithlon ac yn anghynaladwy. • Dim ond 11 dewis chweched dosbarth a gafodd eu cynnal ar gyfer disgyblion blwyddyn 12, a 10 dewis pwnc ar gyfer disgyblion blwyddyn 13. Hwn oedd y nifer isaf o opsiynau pwnc a gafodd eu cynnig yng Nghwm Cynon.

		Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n bryderus i ddechrau wrth symud i ysgol newydd ar gyfer addysg chweched dosbarth, fodd bynnag, byddai cymorth ystyrlon yn cael ei gynnig iddyn nhw i wneud y broses bontio mor llyfn â phosibl, fel sydd wedi'i amlinellu'n fanylach yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Dylid nodi hefyd fod y mwyafrif o fyfyrwyr chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn teithio i Ysgol Gymunedol Aberdâr neu Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru er mwyn cael mynediad at rai o'u hastudiaethau yn ystod y diwrnod ysgol. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr ôl-16 gan y byddai'n caniatáu iddyn nhw gael mynediad at gynnig cwricwlwm ehangach a fyddai'n diwallu eu hanghenion yn well mewn amgylchedd dysgu addysg y 21ain ganrif. Byddai'r angen i deithio rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei leihau, gan alluogi myfyrwyr i dreulio mwy o amser yn cymryd rhan mewn dysgu annibynnol ac yn darparu profiad chweched dosbarth mwy cadarnhaol a sefydlog iddyn nhw, a fyddai'n cael	• Teithiodd 65% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar i ysgolion eraill i gael manteisio ar ddewisiadau pwnc eraill, o gymharu â dim ond 30% yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. **<u>Pobl Hŷn</u> (Rhieni/Gwarcheidwaid a'r Gymuned Ehangach)** **Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn rhannu cyfleusterau gyda Gwasanaethau Hamdden ac felly mae'n ysgol gymunedol gwbl weithredol. Caiff y cyfleusterau chwaraeon eu defnyddio gan glybiau chwaraeon lleol o bob oed, gan gynnwys clybiau pêl-droed, rygbi ac athletau bechgyn a merched. Fydd y cynnig ddim yn effeithio ar y cyfleusterau yma a'r defnydd presennol.**

		effaith gadarnhaol ar les a deilliannau disgyblion. **<u>Pobl Hŷn</u> (Rhieni/Gwarcheidwaid a'r Gymuned Ehangach)** O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.	
ANABLEDD: *(Pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir).*	Cadarnhaol	Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion anabl ôl-16, gan fod Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gwbl hygyrch. Ac yntau wedi'i hadeiladu yn 2014, cafodd Ysgol Gymunedol Aberdâr ei hadeiladu yn unol â gofynion deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu ac mae'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â <u>Deddf Cydraddoldeb</u> 2010 a <u>Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999</u>. Cafodd Ysgol Gymunedol Aberdâr ei	**<u>Ysgol Gyfun Aberpennar:</u>** Mae'r safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n **rhannol** â'r <u>Ddeddf Cydraddoldeb 2010</u> ac wedi'i raddio'n **B** o ran hygyrchedd, sy'n golygu bod rhai materion sydd angen eu gwella ymhellach. **<u>Ysgol Gymunedol Aberdâr:</u>** Mae'r safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n **llawn** â'r <u>Ddeddf Cydraddoldeb 2010</u> ac wedi'i raddio'n **A** o ran hygyrchedd.

		dylunio i gynnwys mannau hyblyg i ganiatáu cyfleoedd ar gyfer addysgu a dysgu mewn grwpiau llai, mannau ar gyfer ymyrraeth, ac i ddarparu cymorth un i un lle bo angen. Mae hefyd yn elwa o gyfleusterau megis ystafelloedd hylendid/meddygol pwrpasol at ddefnydd yr holl ddisgyblion ac aelodau o staff, gan gynnwys y rhai ag anableddau, mynedfeydd gwastad a threfniadau rheoli traffig gwell. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth i ddisgyblion ôl-16 a gaiff ei ddarparu gan garfan Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn parhau a fyddai hynny ddim yn cael ei effeithio. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau barhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu hardal ac ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. Fel y cyfryw, bydd yr angen am unrhyw ddosbarthiadau cynnal dysgu ADY ychwanegol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn parhau i gael ei adolygu a, phe bai angen rhagor yn y dyfodol, byddai digon o le yno.	**Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anghenion Corfforol** **Ysgol Gyfun Aberpennar:** • 25 o ddisgyblion oed ysgol statudol ag ADY. • Dim disgyblion chweched dosbarth ag ADY. • Dim disgyblion ag anghenion corfforol. • Dim Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig **Ysgol Gymunedol Aberdâr** • 73 o ddisgyblion oed ysgol statudol ag ADY. • 2 ddisgybl chweched dosbarth ag ADY • 7 disgybl ag anghenion corfforol • 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>AILBENNU RHYWEDD:

(Unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddyn nhw adeg eu genedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)</td><td>Niwtral</td><td>O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.</td><td>Mae'r Cyfrifiad (2021) yn darparu data ar hunaniaeth rhywedd. Mae'r dadansoddiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf isod:

<table><tr><td>Yr un rhywedd â genedigaeth</td><td>93.69%</td></tr><tr><td>Rhywedd wahanol – heb ei nodi</td><td>0.14%</td></tr><tr><td>Menyw draws</td><td>0.07%</td></tr><tr><td>Dyn traws</td><td>0.07%</td></tr><tr><td>Anneuaidd</td><td>0.05%</td></tr><tr><td>Pob hunaniaeth o ran rhywedd arall</td><td>0.03%</td></tr><tr><td>Ddim wedi ateb</td><td>5.95%</td></tr></table>
Mae ymchwil sydd wedi'i gynnwys yn 'International Journal of Public Health' yn dangos bod ystafelloedd ymolchi ysgolion wedi'u nodi gan ddisgyblion sy'n amrywio o ran rhywioldeb a rhywedd (SGD) fel y mannau lleiaf diogel mewn ysgolion. Maen nhw'n safleoedd lle mae erledigaeth eiriol, gorfforol a rhywiol yn cael ei phrofi. Drwy ddarparu cyfleusterau toiledau (ystafelloedd ymolchi) sy'n niwtral o ran rhywedd, fel y rhai sy'n Ysgol Gymunedol Aberdâr, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn lleihau bwlio ac erledigaeth disgyblion SGD, yn</td></tr>
</table>

			enwedig y rheini sy'n drawsryweddol neu'n amrywio o ran rhywedd.
PRIODASAU A PHARTNERIAETHAU SIFIL: *(Pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)*	Niwtral	O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.	O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.
BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH: *(Merched sy'n feichiog/ar gyfnod mamolaeth)*	Niwtral	O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n	O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei

<table>
<tr><td></td><td></td><td>unol â hynny.</td><td>ddiweddaru'n unol â hynny.</td></tr>
<tr><td>HIL:

(Grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)</td><td>Niwtral</td><td>O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai’r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i’r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.</td><td>Caiff data ar Hunaniaeth Hiliol ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol (CYBLD 2024) ei ddarparu isod:

Ysgol Gyfun Aberpennar:<table><tr><td>Gwyn – Prydeinig</td><td>95.11%</td></tr><tr><td>Cefndir ethnig arall</td><td>4.67%</td></tr><tr><td>Anhysbys</td><td>0.22%</td></tr></table>
Ysgol Gymunedol Aberdâr:<table><tr><td>Gwyn – Prydeinig</td><td>93.20%</td></tr><tr><td>Cefndir ethnig arall</td><td>6.80%</td></tr><tr><td>Anhysbys</td><td>0.00%</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>CREFYDD NEU GRED:

(Pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau).</td><td>Cadarnhaol</td><td>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y grŵp gwarchodedig yma gan y byddai'r mannau hyblyg ychwanegol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn darparu amgylcheddau addas i fwy o ddisgyblion ôl-16 weddïo a myfyrio yn ôl yr angen.</td><td>Cafodd Ysgol Gymunedol Aberdâr ei hadeiladu i gynnwys mannau hyblyg, amlbwrpas.

Cafodd ardal benodol ei dylunio yn yr ysgol newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.</td></tr>
<tr><td>RHYWEDD:</td><td>Cadarnhaol</td><td>O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai’r</td><td>O ystyried natur y cynnig, does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai’r</td></tr>
</table>

(Menywod a dynion, merched a bechgyn)		cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.	cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma gan fod y status quo o ran pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau heb ei newid. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.
CYFEIRIADEDD RHYWIOL: *(Deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol).*	Niwtral	Does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.	Does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.

Yn ogystal â hyn, oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:

NODWEDD WARCHODEDIG	A FYDD Y CYNNIG YN CAEL UNRHYW EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEGYDDOL NEU NIWTRAL?	RHOWCH FANYLION YR EFFAITH	PA DYSTIOLAETH SYDD WEDI'I DEFNYDDIO I ATEGU'R SAFBWYNT YMA?
CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG: *(Unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth).*	Cadarnhaol	Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp yma oherwydd: • Byddai plant teuluoedd y Lluoedd Arfog a symudodd i'r ardal yn cael mynediad at gynnig cwricwlwm ôl-16 ehangach, y cyfle i astudio mewn amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif, a mwynhau'r holl fanteision eraill i ddisgyblion a gaiff eu hamlinellu yn yr adran 'Oedran' uchod, ac yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. • Byddai rhieni/gwarcheidwaid y disgyblion ôl-16 a chymuned ehangach y Lluoedd Arfog yn elwa o'r cyfleusterau cymunedol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, a allai gynnwys defnydd gan grwpiau'r Lluoedd Arfog.	• Does dim data ar gael ar hyn o bryd ar nifer y disgyblion oed ysgol statudol a disgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr sy'n blant i Gymuned y Lluoedd Arfog. • Pe bai teulu o'r Lluoedd Arfog yn symud i'r ardal hanner ffordd trwy flwyddyn academaidd, bydden nhw'n cael eu cefnogi gan Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol i helpu'r plant i ymgartrefu yn eu hysgol newydd. • Cafodd ardal benodol ei dylunio yn yr ysgol newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

CYNHALWYR/GOFALWYR: *(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl).*	Cadarnhaol	Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp yma. Byddai gan gynhalwyr ifainc fynediad at gynnig cwricwlwm ôl-16 ehangach, y cyfle i astudio mewn amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif, a mwynhau'r holl fanteision eraill i ddisgyblion a gaiff eu hamlinellu yn yr adran 'Oedran' uchod, ac yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. • Byddai cynhalwyr o unrhyw oedran yn elwa o gyfleusterau cymunedol Ysgol Gymunedol Aberdâr, a allai gynnwys defnydd gan grwpiau Cefnogi Cynhalwyr.	• Mae 1.5% a 0.3% o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr, yn y drefn honno, yn gynhalwyr ifainc. • Cafodd ardal benodol ei dylunio yn Ysgol Gymunedol Aberdâr fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn (Adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad?

YDW	X	**NAC YDW**	

Enw: Lisa Howell

Swydd: Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 29 Tachwedd 2024

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

NODWCH: Mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 o Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Yn y pen draw, mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau sy'n agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

• Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed • Pensiynwyr • Plant sy'n derbyn gofal • Pobl ddigartref • Myfyrwyr • Cartrefi oedolion sengl	• Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru • Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd • Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches • Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau • Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal • Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol

ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL	**A FYDD Y CYNNIG YN CAEL UNRHYW EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEGYDDOL NEU NIWTRAL?**	**RHOWCH FANYLION YR EFFAITH**	**PA DYSTIOLAETH SYDD WEDI'I DEFNYDDIO I ATEGU'R SAFBWYNT YMA?**
INCWM ISEL/ TLODI O RAN INCWM: *(Does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati).*	Cadarnhaol	1. **Cyffredinol** – Mae data'n awgrymu bod Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n cael effaith gadarnhaol ar bob disgybl, rhiant/gwarcheidwad ac aelod o'r gymuned ehangach, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.	**1.** Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) a gafodd ei gyhoeddi yn 2019, mae dalgylchoedd Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. **<u>Amddifadedd Cyffredinol</u>** **Ysgol Gyfun Aberpennar:** Mae tair o'r ardaloedd bach, a gaiff eu hadnabod fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is

Byddai pob disgybl yn cael mynediad at gynnig cwricwlwm ehangach a fyddai'n bodloni eu hanghenion yn well mewn amgylchedd dysgu estynedig y 21ain ganrif. Byddai'r angen i deithio rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei leihau, gan alluogi myfyrwyr i dreulio mwy o amser yn cymryd rhan mewn dysgu annibynnol a darparu profiad chweched dosbarth mwy cadarnhaol a sefydlog iddyn nhw. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a deilliannau disgyblion ac yn rhoi mwy o gyfle i bob disgybl, waeth beth fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, gyflawni ei botensial.

2. **Cludiant** – Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, nodir y byddai angen i bob disgybl ôl-16 sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar deithio ymhellach i fynychu'r chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Serch hynny, mae'n debygol iawn y byddai gan bob disgybl hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr, felly fyddai hyn ddim yn cael effaith ariannol negyddol ar deuluoedd.

3. **Costau Eraill** - Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, cydnabyddir y gallai

(LSOA), yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Penrhiwceibr 1, sy'n safle 6 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r ail ardal fwyaf difreintiedig yn Rhondda Cynon Taf.

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is	**Safle yng Nghymru (o 1909 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is)**	**Safle yn Rhondda Cynon Taf (o 154 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is)**
Penrhiwceiber 1	6	2
Abercynon 2	33	5
Gorllewin Aberpennar 2	136	19

Ysgol Gymunedol Aberdâr: Mae tair o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Pen-y-waun 2, sydd yn safle 15 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r drydedd ardal fwyaf difreintiedig yn Rhondda Cynon Taf.

fod goblygiadau cost i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer darpariaeth ôl-16, gan gynnwys yr angen i brynu gwisg ysgol newydd. Serch hynny, mae cymorth ar gael i deuluoedd, gan gynnwys cynlluniau gwisgoedd ysgol ail-law a thaliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) wythnosol ar ddisgyblion o gartrefi incwm isel i helpu gyda chostau addysg bellach.

4. **Defnydd gan y gymuned** –
Does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar y gymuned o ystyried na fyddai'r cynnig yma'n effeithio ar y status quo a'r ddarpariaeth a gaiff ei chynnig eisoes. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is	**Safle yng Nghymru**	**Safle yn Rhondda Cynon Taf**
Pen-y-waun 2	15	3
Pen-y-waun 1	101	12
Hirwaun 3	176	25

Amddifadedd o ran Incwm

Ysgol Gyfun Aberpennar: Mae tair o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Penrhiwceiber 1, sy'n safle 12 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm yng Nghymru a'r ail ardal fwyaf difreintiedig o ran incwm yn Rhondda Cynon Taf.

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is	**Safle yng Nghymru**	**Safle yn Rhondda Cynon Taf**
Penrhiwceiber 1	12	2
Abercynon 2	53	6
Gorllewin Aberpennar 2	78	8

Ysgol Gymunedol Aberdâr: Mae pedwar o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr yn y

10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Pen-y-waun 2, sy'n safle 26 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm yng Nghymru a'r drydedd ardal fwyaf difreintiedig o ran incwm yn Rhondda Cynon Taf.

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is:	**Safle yng Nghymru**	**Safle yn Rhondda Cynon Taf**
Pen-y-waun 2	26	3
Pen-y-waun 1	130	15
Hirwaun 3	141	17
Gogledd Aberaman 2	185	25

2. **Cludiant**- Yn dilyn ymarfer ymgynghori diweddar, mae Cabinet y Cyngor wedi penderfynu o fis Medi 2025:

   - Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r meini prawf pellter statudol a gaiff ei nodi yn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 Llywodraeth Cymru mewn perthynas â disgyblion oed uwchradd (blynyddoedd 7 i 11), a bydd yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i bob disgybl uwchradd sy'n byw **3 milltir**

			neu ymhellach o'u hysgol addas agosaf. • Bydd y Cyngor yn parhau, yn ôl ei ddisgresiwn, i ddarparu cludiant i ddisgyblion ôl-16 sy'n byw **3 milltir** neu ymhellach o'u hysgol neu goleg addas agosaf. Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor wedi'i chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. 3. **Costau Eraill** – • Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gweithredu cynllun gwisgoedd ysgol ail-law, ac felly mae modd i unrhyw ddisgybl ôl-16 dderbyn cymorth gyda gwisg ysgol gan yr ysgol. • Gall disgyblion fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA), sef taliad wythnosol o £40 i helpu pobl ifainc 16 i 18 oed gyda chostau addysg bellach. Mae cymhwysedd yn seiliedig ar incwm y cartref.
CYFOETH ISEL A/NEU DIM CYNILION: *(Digon o arian i*	Cadarnhaol	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.

gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilon i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)			
AMDDIFADEDD MATEROL: *(Methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati).*	Cadarnhaol	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.
AMDDIFADEDD O RAN ARDAL: *(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus).*	Niwtral	Does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar yr anfantais economaidd-gymdeithasol, o ystyried na fyddai'r cynnig yma'n effeithio ar y status quo a'r ddarpariaeth a gaiff ei chynnig eisoes. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr	Does dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar yr anfantais economaidd-gymdeithasol yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur / negyddol / andwyol yn codi, eid i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.

		Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny.	
CEFNDIR ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL: *(Dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)*	Cadarnhaol	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.
ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL: *(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais).*	Cadarnhaol	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.	Fel yr adran 'Incwm Isel /Tlodi o ran Incwm' uchod.

ADRAN 4 – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei chael ar grŵp gwarchodedig,

nodwch y camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi. Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar grŵp gwarchodedig.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar grŵp gwarchodedig.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

- Mae dadansoddiad data yn seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r Cyfrifiad Cenedlaethol (2021), CYBLD (2024) a'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) oni nodir yn wahanol.
- Ymresymiad ansoddol wedi'i gasglu gan Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor.
- Ymresymiad ansoddol wedi'i gasglu gan Garfan Eiddo'r Cyngor.
- Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled Rhondda Cynon Taf a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma gan Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Rhagfyr 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 17 Ionawr 2025.

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda'r Cynghorau Ysgol, y Cyrff Llywodraethu, aelodau o staff a chymunedau ehangach Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ysgolion yr 21ain Ganrif
Canolfan Menter y Cymoedd
Parc Hen Lofa'r Navigation
Abercynon
CF45 4SN

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Bydd sesiwn galw heibio hefyd yn cael ei threfnu fel bod modd i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig yma.

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol Statudol?

YDW	X	**NAC YDW**	

ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol:
    - Cyflwyno, neu derfynu, darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol.

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Rhagfyr 2024 ac yn dod i ben am 5pm 17 Ionawr 2025.

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda'r Cynghorau Ysgol, y Cyrff Llywodraethu, aelodau o staff a chymunedau ehangach Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ysgolion yr 21ain Ganrif
Canolfan Menter y Cymoedd
Parc Hen Lofa'r Navigation
Abercynon
CF45 4SN

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Bydd sesiwn galw heibio hefyd yn cael ei threfnu fel bod modd i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig yma.

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Rhagfyr 2024 ac yn dod i ben am 5pm 17 Ionawr 2025. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn ystod Chwefror 2025. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais o'r cyfeiriad uchod.

Bydd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn trafod Adroddiad yr Ymgynghoriad ac yn penderfynu – yn seiliedig ar yr adborth – a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r Cyngor cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu

ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dod i benderfyniad ar y cynnig. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebiadau yma ar gael i bawb fwrw golwg arno ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriad uchod. O dan Adran 50 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae angen i gynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Fel y cyfryw, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn 35 diwrnod i ddiwedd cyfnod yr Hysbysiad Statudol ac anfon copïau o unrhyw wrthwynebiadau atyn nhw ynghyd ag Adroddiad Gwrthwynebiadau (lle bo angen). Yna, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig.

Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Bydd swyddogion o Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Mae'r holl gynigion ad-drefnu ysgolion yn destun adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' unwaith y byddan nhw wedi'u cwblhau. Bydd deilliannau'r cynnig (cadarnhaol a negyddol) yn llywio penderfyniadau a gaiff eu gwneud ar brosiectau yn y dyfodol.

ADRAN 6 – ADOLYGU

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Benderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a deilliannau economaidd-gymdeithasol. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod.

SYLWADAU SWYDDOGION Y PANEL ADOLYGU	**DYDDIAD YSTYRIED Y CYNNIG**	**DISGRIFIAD O (UNRHYW) NEWIDIADAU A WNAED GAN Y SWYDDOGION Y PANEL ADOLYGU**
SYLWADAU'R YMGYNGHORIAD	**DYDDIAD YSTYRIED Y CYNNIG**	**DISGRIFIAD BYR O (UNRHYW) WELLIANNAU A WNAED YN DILYN YR YMGYNGHORIAD**
• Nodir bod Adrannau Oedran ac Anabledd yn rhai cadarnhaol ac er y bydd canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hir, mae'r adborth i'r ymgynghoriad yn awgrymu y bydd effaith negyddol tymor byr o ran ymdopi â'r newid. Sgyrsiau adborth ymgynghori am yr effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n teithio. A oes cyfle i gynnwys enghreifftiau cadarnhaol o benderfyniadau tebyg mewn meysydd eraill? Cynnwys data staff ar gyfer tryloywder	04.02.2025	**Oedran – Effaith ar ddisgyblion** Mae lles pob disgybl wedi cael ei ystyried ac mae'n hollbwysig i CBSRhCT. Rydym yn cydnabod y gallai rhai disgyblion weld y newidiadau yn anoddach nag eraill. Mae trawsnewidiadau bywyd yn nodweddion pwysig ym mywydau pob person ifanc. Bydd pob disgybl sy'n derbyn addysg yn profi pob cyfnod o newid ac addasu ac mae llawer o ddysgwyr eisoes yn manteisio ar eu haddysg ar draws mwy nag un safle ysgol ac wedi addasu'n dda i

– os yw'r data'n gymhleth ac nad oes tystiolaeth o ran effaith staff, mae cyfle i gynnwys datganiad mwy cyffredinol ar yr ymarfer staffio blynyddol.		hyn. Gellid dadlau y bydd derbyn addysg ôl-16 ar nifer llai o safleoedd ysgolion yn dod â mwy o sefydlogrwydd i ddysgwyr a pharhad mewn addysgu a dysgu, a pherthnasoedd cymdeithasol gyda staff a chyfoedion yn ystod eu hastudiaethau ôl-16. Cydnabyddir y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion yn emosiynol i addasu i amgylchedd ysgol newydd ac anogaeth i wneud ffrindiau a pherthnasoedd newydd ac i fod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol newydd**.** Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd CBSRhCT yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i gefnogi'r gwaith o gyflawni trawsnewidiad effeithiol yn ystyrlon. Bydd y trefniadau pontio a fydd yn cael eu darparu'n sicrhau y bydd llawer o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newid a setlo'n hapus i'w hysgol newydd cyn gynted â phosibl. Anabledd Bydd pob disgybl ag ADY yn parhau i gael eu cefnogi. Mae Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNET) 2018 yn rhoi arweiniad manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae Cod ADY Cymru (2021) yn argymell

		bod lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn mabwysiadu ymateb graddedig i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae ymateb graddedig yn golygu y gellir cyflwyno mwy o arbenigedd a chymorth cynyddol i fynd i'r afael â'r anawsterau y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn eu profi. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol yn dibynnu ar ddifrifoldeb lefel anghenion y plentyn/person ifanc. Bydd y ddyletswydd a'r cyfrifoldeb hwn yn hyn o beth yn cael eu cyflawni ni waeth pa ysgol y mae plentyn / person ifanc yn ei mynychu. **Teithiol** Mae gwybodaeth mewn perthynas â darpariaeth Cludiant Cartref i Ysgol CBSRhCT ar gael ar wefan CBSRhCT. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae'n debygol iawn y bydd gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. **Effaith ar staff** Mae CBSRhCT wedi hen sefydlu polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol (AD) sy'n rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr am

		reoli newid sefydliadol. Mynychodd swyddogion Adnoddau Dynol y ddau gyfarfod a gynhaliwyd gyda staff a llywodraethwyr o'r ddwy ysgol, a bydd cymorth ar gael i'r holl staff sy'n gofyn iddo ystyried eu hopsiynau
Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly yn rhan o'r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn: 1. Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol: • Rhyw • Oedran • Ethnigrwydd • Anabledd • Rhywioldeb • Crefydd neu gred • Hunaniaeth rhywedd • Statws perthynas • Beichiogrwydd • Dewis iaith O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, 60.0%, y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd oedran a dywedodd 51.0% y byddai'r cynnig yn	27.01.2025	O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y gallai'r cynnig gael effaith negyddol arnyn nhw oherwydd eu hoedran, roedd y rhesymau dros yr effaith negyddol yn cynnwys: • "Mae gen i ferch, sy'n awyddus i orffen ei haddysg yn Ysgol Gyfun Aberpennar." • "Rydyn ni'n gofyn i ddisgyblion wneud penderfyniad hyd yn oed yn fwy yn 16 oed. Nid yn unig rydyn ni'n gofyn iddyn nhw ddewis pynciau a fydd yn effeithio ar ddewisiadau bywyd yn y dyfodol, ond byddan nhw'n gwneud y penderfyniad yma ar y lleoliad hefyd." O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y gallai'r cynnig gael effaith negyddol arnyn nhw oherwydd eu hanabledd, roedd y rhesymau dros yr effaith negyddol yn cynnwys: • "Mae gan [fy] mhlentyn [ADY], byddai newid ysgol bryd hynny yn amhosib iddi." • "[Mae gan fy mhlentyn ADY], byddai'n golygu newid trefn a chynefindra'n llwyr

cael effaith ar y nodwedd anabledd.		a hefyd eu rhoi nhw mewn perygl oherwydd mwy o deithio a bod mewn canol tref brysur gyda phrif ffyrdd a mwy o bobl.” • Mae gen i awtistiaeth fel llawer o rai eraill sy'n dal i fynychu Ysgol Gyfun Aberpennar. Byddai cau’r chweched dosbarth yn achosi i mi ddod â fy addysg i ben oherwydd fyddai ddim modd i mi ymdopi â’r newid yn yr amgylchedd.” Bydd pob disgybl ag ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn mabwysiadu ymateb graddedig i ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn/person ifanc. Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r

		cyfrifoldeb yma ni waeth pa ysgol mae'r plentyn/person ifanc yn ei mynychu.

ADRAN 7 – CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a does dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Gallai'r cynnig ddod ag effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar draws yr holl grwpiau agored i niwed sydd wedi'u nodi o dan y penawdau anfantais economaidd-gymdeithasol.

ADRAN 8 – AWDURDODI

Swyddog Arweiniol:

Enw: Lisa Howell

Swydd: Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 29 Tachwedd 2024

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau	X
Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu	
Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.	

Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw: Andrea Richards

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid

Dyddiad: 29 Tachwedd 2024

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.